



Gwahodd teuluoedd bedydd adeg Calan Gaeaf

Dydy rhai rhieni ddim yn siŵr beth i'w deimlo am Galan Gaeaf - ai hwyl diniwed yw e'n unig, neu a oes yna agweddau nad ydyn nhw'n perthyn i sut rydym ni am weld y byd? Mae gwasanaeth bedydd plentyn yn onest iawn am realiti da a drwg, a gall Calan Gaeaf fod yn amser da i siarad am y pethau hynny a sut gall cariad Iesu fod yn 'olau yn y tywyllwch' i bawb.

Mae'r gair Saesneg "hallowe'en" yn golygu "the eve of all hallows' day" – mewn geiriau eraill, noswyl gŵyl yr eglwys sy'n dathlu'r Holl Saint. Weithiau, ystyrir Sant fel rhywun sanctaidd tu hwnt – rhywun arbennig iawn, a wnaeth bethau eithriadol oherwydd ei ffydd yn Nuw.

Mae'r seintiau enwog i gyd yn enghreifftiau gwych o sut mae byw fel y byddai Duw am i ni fyw. Ond yn y Beibl, mae Sant Paul yn galw pob Cristion yn sant –ffrind Duw, sy'n ceisio byw ei fywyd yn ôl dibenion Duw, yw sant. Pan mae rhywun yn cael ei fedyddio, mae'n dod yn Sant go iawn, felly mae dydd yr Holl Saint yn dathlu teulu cyfan Duw.

Gall Calan Gaeaf fod yn amser da i ailgysylltu â theuluoedd bedydd a'u gwahodd i'r eglwys i achlysur amgen i barti Calan Gaeaf traddodiadol. Dyma rai syniadau hwyliog a byddant yn fendith i eraill hefyd.

Parti Golau

Meddylwch am gynnal parti golau gyda gweithgareddau hwyliog i blant a phobl ifanc – mae'r digwyddiadau hyn yn ffordd hyfryd o ganolbwyntio ar bopeth sy'n rhoi bywyd ac yn gadarnhaol am yr Holl Saint.

Mae rhai eglwysi'n cynnal gwasanaeth arbennig ar ddydd yr Holl Saint - amser pan fyddwn yn cofio anwyliad sydd wedi marw. Efallai fod cyfle i oleuo kannwyll i gofio am rywun - mae plant bach hyd yn oed yn galaru yn eu ffordd eu hunain, a gallan nhw gael cysur yn y weithred syml hon.

Cerfio pwmpen

Wyddoch chi fod gargoiliau (yr wynebau dychrynlyd sydd wedi'u cerfio mewn carreg ar eglwysi) wedi'u creu'n wreiddiol yn yr oesoedd canol i ddychryn ysbrydion aflan i ffwrdd? Mae pwmpenni gydag wynebau dychrynlyd ar noson Calan Gaeaf yn rhywbeth tebyg i hynny. Ond erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o bobl yn credu na allwch chi ymladd drygioni gyda drygioni - gallwch ond ymladd drygioni trwy wneud daioni, a'r da fydd yn ennill y dydd bob amser.

Felly rhowch gynnig ar gerfio pwmpen gyfeillgar eleni, fel arwydd eich bod chi a'ch teulu yn sefyll dros ddaioni y Calan Gaeaf hwn? (A gallwch ddefnyddio gweddill y bwmpen i wneud cawl blasus!).

Gallwch wneud yr un fath gyda gwisgoed Calan Gaeaf: mae archarwyr yn ddewisiadau cadarnhaol gwych yn lle gwrachod ac ysbrydion dychrynlyd.

Trîth a danteithion

Dydy pawb ddim yn gyffyrddus â'r syniad o blant yn mynd o gwmpas tai cymdogion yn gofyn am 'trîths'. Ond os nad ydych am eu hamddifadu o rywbeth y mae eu ffrindiau'n ei wneud, beth am gael sesiwn bobi i'r teulu, a mynd â hambwrdd o gwcis gyda chi os ydych chi'n mynd allan gyda nhw? Gall plant bach hyd yn oed helpu i roi wyneb hapus ar fisged ag eisin. Drwy wneud hyn, bydd gennych chi rywbeth hyfryd i'w roi i'ch cymdogion hefyd!

Diogelwch yn gyntaf

Mae llawer o wisgoed ffansi plant yn fflamadwy iawn, felly mae'n well osgoi canhwylau a fflamau go iawn. Bellach, mae llawer o eglwysi'n defnyddio canhwylau batri bach yn lle. Os gallwch chi fforddio prynu pecyn mawr o'r canhwylau trydan hyn gallwch eu cadw ar gyfer achlysuron eraill fel Cristingl.

Dweud gweddi nos da

Ar noson Calan Gaeaf mae'n galonogol cael gweddi nos da sy'n eu hatgoffa fod cariad, goleuni, a daioni, yn mynd i drechu ofn a drygioni bob amser. Mae gwasanaeth hynafol y Cwmplyn (Gweddi Nos) wedi cael ei ddefnyddio i'n hatgoffa am hyn ers canrifoedd, ac mae llawer o'i weddiâu yn dal yn adnabyddus heddiw:

*Ymwêl â'r lle hwn, deisyfwn arnat Arglwydd;
gwasgara holl faglau'r gelyn;
boed i'th angylion sanctaidd drigo gyda ni
a'n cadw mewn tangnefedd;
a boed i'th fendith fod arnom yn wastadol;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen.*

Neu, mewn fersiwn symlach i blant:

*Bydd gyda ni, Arglwydd,
a chymer ymaith bob ofn,
boed i'th angylion ein gwarchod
a rhoi heddwch i ni.
A bendithia ni bob amser.
Amen.*

Gallwch annog teuluoedd i ddefnyddio'r gweddiâu hyfryd hyn pryd bynnag y byddan nhw angen cael eu hatgoffa fod Duw gyda nhw – yn enwedig ar ddiwedd diwrnod anodd, neu pan fo rhywbeth trist wedi digwydd.